# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION PWYLLGOR Y RHAGLEN CHRAFFU

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 1, Y GANOLFAN DDINESIG, ABERTAWE DDYDD LLUN 10 GORFFENNAF 2017 AM 4.30PM

**YN BRESENNOL**: Bu M H Jones (Cadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| S E Crouch | E W Fitzgerald | L S Gibbard |
| D W Helliwell | T J Hennegan | C A Holley |
| B Hopkins | M Sykes | W G Thomas |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|
| D Anderson-Thomas | P R Hood-Williams | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Brij Madahar | Cydlynydd Craffu |
| Debbie Smith | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd |
| Lyndsay Thomas | Swyddog Trwyddedu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): C Anderson, J P Curtice, N J Davies, C R Evans, I E Mann a/ac G J Tanner

5 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

6 **GWAHARDD PLEIDLEISIAU CHWIP A DATGAN CHWIPIAU'R PLEIDIAU.**

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o bleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

7 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion Pwyllgor y Rhaglen Graffu Arbennig a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2017 a Phwyllgor y Rhaglen Graffu a gynhaliwyd ar 10 Ebrill 2017 a 25 Mai 2017 fel cofnod cywir.

## 8 CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD.

Nid oedd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

## 9 RÔL PWYLLGOR Y RHAGLEN GRAFFU.

Cyflwynodd Cadeirydd ac Arweinydd y Tîm Craffu adroddiad am Rôl Pwyllgor y Rhaglen Graffu. Croesawyd Cynghorwyr newydd a'r rheiny a oedd yn newydd i'r Pwyllgor.

Amlygwyd y meysydd canlynol: -

- Rôl Pwyllgor y Rhaglen Graffu gan gynnwys rheoli'r Rhaglen Waith Craffu, Paneli Craffu a Gweithgorau drwy raglen waith unigol;
- Aelodaeth o Bwyllgor y Rhaglen Graffu;
- Gofynnir am fynegiannau o ddiddordeb am swyddi Cyfetholedigion Statudol Addysg gwag;
- Cynullyddion Craffu a disgrifiad o'u rôl;
- Y pwysigrwydd bod Cynullyddion yn cynnwys rhanddeiliaid cwbl allweddol, er enghraifft, defnyddwyr gwasanaeth, tystion arbenigol a phartneriaid mewn gweithgareddau craffu, lle y bo'n berthnasol;
- Gweithio effeithiol - ystyried effeithiolrwydd gwaith y Pwyllgor ac unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella;
- Ystyried paratoi a strwythuro'r cyfarfodydd;
- Cylch gorchwyl

Ceisir caniatâd gan y Pwyllgor er mwyn parhau i gyfethol Cynullyddion y Panel Perfformiad ar Bwyllgor y Rhaglen Graffu (os nad ydynt eisoes yn aelodau). Byddant yn cael eu cyfethol ar y Pwyllgor heb allu pleidleisio.

Hefyd, rhannodd y Pwyllgor farn am sut y gall weithio'n fwyaf effeithiol, fel y gall baratoi'n dda ar gyfer cyfarfodydd, gan gynnwys, er enghraifft, ddatblygu cwestiynau ymlaen llaw, cynnal cyfarfodydd ymlaen llaw, hyd cyfarfodydd y Pwyllgor, meddwl yn rheolaidd am ba mor dda mae'r Pwyllgor yn gweithredu.

**PENDERFYNWYD:** -

1) dylid nodi cynnwys yr adroddiad; a
2) chymeradwyo cyfethol Aelodau'r Panel Perfformiad fel a nodir ym mharagraff 3.4 yr adroddiad.

## 10 ADRODDIAD BLYNYDDOL CRAFFU 2016/17.

Cyflwynodd y cadeirydd yr Adroddiad Blynyddol Craffu ar gyfer 2016/2017.

Amlinellodd yr adroddiad y gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn ddinesig, dangosodd sut mae craffu wedi gwneud gwahaniaeth ac wedi cefnogi gwelliant parhaus ar gyfer y swyddogaeth graffu.

Yn Adran 4, amlinellwyd adborth a gwelliannau yn benodol a adroddodd am y pethau hynny a oedd wedi gweithio'n dda a'r pethau hynny y gellid eu gwella.

Cafwyd trafodaeth ynghylch y canlynol: -

- A oedd gan y pwyllgor unrhyw farn am yr adroddiad ac a oedd unrhyw awgrymiadau i wella'r ffordd yr oedd wedi'i ysgrifennu;
- Roedd yn debyg bod lefel o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth staff o graffu yn bryder. Hysbyswyd aelodau bod ymateb staff i'r Arolwg Blynyddol yn isel iawn, felly roedd yn anodd dod i gasgliadau ystyrlon;
- Sut gellid gwella cynnwys staff;
- Ystyried diwygiadau i'r holiadur am y dyfodol i sicrhau bod yr arolwg yn effeithiol;
- Roedd canran uchel o argymhellion a wnaed gan Graffu a oedd wedi cael ei derbyn gan y Cabinet

Nodwyd gwall teipio hefyd. Rhaid diwygio Adroddiad Blynyddol Craffu paragraff 4.3. (7) 2016/17 fel ei fod yn cynnwys y gair "ni" yn yr ail linell ac yn darllen "ni ddeallwyd yn llawn".

**PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad a'i gyflwyno i'r cyngor ym mis Gorffennaf.

11 **RHAGLEN WAITH CRAFFU 2017/18.**

Cyflwynodd y cadeirydd adroddiad ar Raglen Waith Craffu 2017/18 i'w ystyried.

Darparodd Arweinydd Tîm Craffu gefndir i'r Rhaglen Waith Craffu a darparodd drosolwg o'r Gynhadledd Cynllunio Gwaith. Amlinellodd yr angen am y Rhaglen Waith i gyd-fynd â'r Blaenoriaethau Corfforaethol ac i fod yn gytbwys i fynd i'r afael â'r materion sy'n peri pryder i'r gymuned. Cyfeiriodd at yr egwyddorion arweiniol - dylai'r gwaith craffu fod yn strategol ac yn arwyddocaol gan ganolbwyntio ar faterion sy'n peri pryder ac yn cynrychioli defnydd da o amser craffu ac adnoddau.

Cynhaliodd y pwyllgor drafodaeth am y Rhaglen Waith a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol: -

- Defnyddio paneli perfformiad a sesiynau holi ac ateb i fynd i'r afael â materion pwysig;
- Hyblygrwydd a chyfnewidioldeb y Rhaglen Waith yn ôl yr angen;
- Craffu cyn penderfynu;
- 2 banel ymgynghori arfaethedig ar gyfer y flwyddyn nesaf;
- Paneli perfformiad - panel perfformiad datblygu ac adfywio newydd a phenodi aelodau'r Cynullydd;
- Byddai Mynegiannau o Ddiddordeb yn cael eu gwahodd ar gyfer Cynullydd ar gyfer Panel Perfformiad Ysgolion;
- Roedd 9 gweithgor wedi'u nodi a'u blaenoriaeth yn y rhaglen waith;
- Craffu rhanbarthol mewn perthynas ag 'Ein Rhanbarth ar Waith' a'r posibilrwydd o drefniadau rhanbarthol eraill;

- Ceisiadau cyhoeddus ar gyfer craffu;
- Oedi byr posib wrth ddechrau'r panel ymchwilio cyntaf i ganolbwyntio ar ddechrau'r gweithgorau;
- Darparu cefnogaeth ddigonol a/neu staff i ymdopi â'r gweithgor arfaethedig;
- Paneli Perfformiad Gwasanaethau Plant, Teuluoedd ac Oedolion.

Trafodwyd trefn y gweithgorau ymhellach. Ystyriwyd bod Cynllunio ar gyfer Argyfyngau yn flaenoriaeth a'i fod yn bwysig iddo barhau i fod y gweithgor cyntaf, yn ogystal â Chydlyniant Cymunedol a Throseddau Casineb. Oherwydd yr ymgynghoriad sydd ar waith ar Ddigartrefedd, gofynnwyd i roi mwy o flaenoriaeth i hyn. Gofynnwyd hefyd ymdrin â Thaliadau am Barcio mewn ffordd fwy hwylus oherwydd lleihad o ran defnydd meysydd parcio ar draethau dros gyfnod y gaeaf o ganlyniad i gynnydd mewn taliadau parcio ceir.

Nodwyd bod Aelod y Cabinet a oedd yn mynd i'r afael â digartrefedd i fod i fynd i'r cyfarfod craffu os bydd Aelodau'r Cabinet am ystyried cwestiynau.

Amlinellwyd yr Ymgynghoriad Trechu Tlodi, ac anogwyd holl Aelodau'r Pwyllgor i ymateb.

**PENDERFYNWYD**

1) cymeradwyo'r Rhaglen Waith Craffu (Atodiad 3) ac eithrio newid trefn y gweithgorau fel a ganlyn: -
    1. Cynllunio ar gyfer Argyfyngau a'u Rheoli
    2. Cydlyniant Cymunedol a Throseddau Casineb
    3. Digartrefedd
    4. Taliadau am Barcio
    5. Cynnal a Chadw Ffyrdd/Troedffyrdd
    6. Ynni Adnewyddadwy
    7. Cynhwysiad Digidol
    8. Gwasanaethau Bysus
    9. Cyfleusterau Cyhoeddus;
2) y byddai'r Panel Ymchwilio yn canolbwyntio ar Weithio Rhanbarthol;
3) penodi'r cynullyddion canlynol: -
    - Gwella Gwasanaethau a Chyllid - y Cynghorydd Chris Holley
    - Gwasanaethau i Oedolion - y Cynghorydd Peter Black
    - Gwasanaethau Plant a Theuluoedd - y Cynghorydd Paxton Hood-Williams; a
4) Gwahodd mynegiannau o ddiddordeb gan yr holl gynghorwyr craffu i gymryd rhan mewn paneli a gweithgorau cytunedig.

12 **<u>LLYTHYRAU CRAFFU.</u>**

Adroddwyd am y llythyrau craffu mewn perthynas â'r Craffu Cyn Penderfynu ar Sgwâr y Castell i'r Pwyllgor.

Nodwyd y byddai Sgwâr y Castell yn destun adroddiad arall gan y Cabinet, felly cynhelir Pwyllgor y Rhaglen Graffu cyn penderfynu, a fydd yn rhoi'r cyfle i'w drafod ymhellach.

**PENDERFYNWYD** y dylid nodi cynnwys y diweddariad.

## 13 CYNLLUN GWAITH Y PWYLLGOR ARCHWILIO (ER GWYBODAETH).

Nodwyd cynllun gwaith y Pwyllgor Archwilio ar gyfer 2017/18.

Roedd hyn rhan o ddatblygu'r perthynas rhwng y Pwyllgor a'r Pwyllgor Archwilio. Mae'n bwysig bod pob pwyllgor yn ymwybodol o waith ei gilydd er mwyn sicrhau eu bod yn gydlynus ac i osgoi dyblygu neu fylchau.

## 14 GWAHARDD Y CYHOEDD.

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhelliad/ion yr adroddiad ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitem(au) f/busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle roedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

## 15 LLYTHYRAU CRAFFU.

Nodwyd y llythyrau craffu mewn perthynas ag adeilad Oceana.

Nodwyd bod nifer o gwestiynau a materion heb eu cyflwyno a chytunwyd i ofyn i'r Arweinydd ddod i gyfarfod Pwyllgor y Rhaglen Graffu yn y dyfodol er mwyn mynd i'r afael â'r rhain.

**PENDERFYNWYD** gwneud trefniadau i'r Arweinydd ddod i Bwyllgor y Rhaglen Graffu yn y dyfodol er mwyn trafod dymchwel adeilad Oceana ymhellach.

## 16 MATERION YN CODI.

Adroddodd y Cadeirydd am newidiadau yn y Tîm Craffu. Cyfeiriodd at Gyn-reolwr Craffu, Dave Mckenna, a adawodd ar ddiwedd mis Mehefin. Dywedodd wrth y Pwyllgor hefyd fod Jenna Tucker, Swyddog Ymchwil Craffu, yn gadael ar ddiwedd mis Gorffennaf.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion ar ran y Pwyllgor am eu gwaith caled gan ddymuno'r gorau iddynt yn y dyfodol.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.55 pm

**CADEIRYDD**